20 Gorffennaf 2007

Mr John Walter Jones
Cadeirydd
Awdurdod S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Annwyl Mr Jones

Sianel i Blant Arfaethedig S4C

Mae ITV Wales yn hynod o gefnogol o fenter S4C i ddarparu sianel Gymraeg arbennig i blant gan y bydd yn meithrin cenhedlaeth o wylwyr a fydd yn naturiol ymwybodol o ddiwylliant a chelfyddyd o ddiddordeb penodol i bobl Cymru. Bydd nifer o'r themâu, materion ac adloniant a ddarperir gan y sianel arfaethedig yn esblygu cenhedlaeth o wylwyr a fydd yn rhan, nid yn unig o gynulleidfa graidd S4C, ond a fydd hefyd yn rhan o gynulleidfa graidd ITV Wales.

Fel darlledwr profiadol mae ITV Wales yn cydnabod gwerth darparu sianel benodol i gyflwyno gwasanaeth Cymraeg i blant yn unol â'r tueddiad cyffredinol mewn amgylchedd ddarlledu aml sianeli. Byddai gosod y sianel Gymreag yn gyfochrog a sianeli tebyg ar restrau sianeli electronig i blant yn galluogi'r gynulleidfa darged i droi at y gwasanaeth yn nauriol wrth chwilio am arlwy gwylio i blant.

Yr ydym ni yn ITV Wales yn deall barn, dyheadau a dymuniadau gwylwyr Cymraeg yn eu harddegau trwy ein cynhyrchiad o'r gyfres materion cyfoes hynod o lwyddiannus i bobl ifanc, 'Hacio' y mae ITV Wales wedi ei chynhyrchu yn wythnosol ar gyfer S4C dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Ein bwriad yw datblygu ar y ddarpariaeth yma gyda syniadau gwreiddiol, safonol a phernasol yn ein cyflenwad o raglenni a anelir at y Sianel arbennig i blant.

Drwy hyn, credwn y gallwn gyfrannu yn sylweddol at ddiwallu'r amcan a amlinellir yn 3.4.1.6 'i hysbysu plant Cymru am y byd o'u cwmpas trwy adloniant a thrwy raglenni newyddion wedi'u teilwra i'w gofynion ac o'u persbectif unigryw'. Gallai ITV Wales ddarparu hyn trwy faterion cyfoes a rhaglenni cyfoes wedi'u targedu'n benodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau hwyr. Byddem hefyd yn gweithio gydag S4C i werthuso gofynion rhaglennu pellach yn seiliedig ar gryfderau sylfaen cynhyrchu ITV Wales sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi rhaglenni dogfen, drama a materion cyfoes ar gyfer S4C.

Mae S4C wedi amlinellu y caiff y Sianel i Blant ei hariannu trwy ei ffynnonellau ariannol presennol gan gynnwys defnyddio'r gyllideb rhaglenni plant gyfredol yn ogystal ac incwm masnachol. Fel darlledwr masnachol cydnabyddwn na allai Sianel o'r fath, gyda chynulleidfa gyfyngedig, gynnal ei hun yn unig fel endid masnachol – ni fyddai'r refeniw o hysbysebu a nawdd ynddynt eu hunain yn dod yn agos at gyllido costau sianel o'r fath. Byddem fodd bynnag yn bryderus pe bai'r Sianel i Blant yn gosod pwysau ar y cyllidebau yng ngweddill amserlen S4C, yn enwedig yn y meysydd rhaglennu a ddarparwn ar hyn o bryd i S4C.

Ers sefydlu'r Cynulliad mae ITV Wales wedi gweithio'n agos gyda darlledwyr eraill yng Nghymru i sefydlu gwasanaeth darlledu o ansawdd uchel o weithrediadau'r Cynulliad dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Mae ITV Wales yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol parhau i ddarparu platfform ar gyfer darlledu Gweithrediadau'r Cynulliad ac mae'n fodlon cydweithio gyda holl ddarlledwyr Cymru i ddarganfod ateb cyfeillgar ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn ar yr amrywiol gyfryngau sydd ar gael.

Yn gywir iawn



Elis Owen
Rheolwr Gyfarwyddwr